




Omnibws y Plant 2019

Mynychiadau a Chyfranogiad cyffredinol yn y Celfyddydau
unwaith y flwyddyn neu fwy



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn darparu gwybodaeth mewn print bras a braille, ynghyd â fformatau sain a Hawdd eu Deall, ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn hefyd yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd heblaw am Gymraeg neu Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.



Cynnwys

Cyflwyniad.....	4
Cefndir.....	4
Methodoleg.....	4
Cyfweiliadau.....	4
Cyflwyno data.....	5
Mynychiadau ar gyfer pob Ffurff gelf.....	5
Cyfranogiad ar gyfer pob Ffurff gelf.....	6
Crynodeb Gweithredol.....	7
Mynychiadau.....	7
Trosolwg o Fynychiadau Celfyddydol fesul Ffurff Gelf yn ystod y tair blynedd ddiwethaf.....	7
Sut a phryd y mynychir y gweithgareddau?.....	9
Cyfranogiad.....	10
Trosolwg o Gyfranogiad Celfyddydol fesul ffurff gelf yn ystod y tair blynedd ddiwethaf.....	11
Sut a phryd y cyfranogir mewn Gweithgareddau Celfyddydol?.....	12
Gradd Gymdeithasol: Mynychiadau.....	13
Gradd Gymdeithasol: Cyfranogiad.....	13
Rhywedd: Mynychiadau.....	14
Rhywedd: Cyfranogiad.....	14
Oedran: Mynychiadau.....	15
Oedran: Cyfranogiad.....	17
Mynychiadau yn ôl Rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru.....	18
Cyfranogiad yn ôl Rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru.....	21
Mynychiadau yn ôl y gallu i siarad Cymraeg.....	23
Cyfranogiad yn ôl y gallu i siarad Cymraeg.....	25
Atodiad 1: Diffiniadau Graddau Gymdeithasol.....	26
Atodiad 2: Rhanbarthau.....	28
Atodiad 3: Holiadur Arolwg 2019.....	29

Cyflwyniad

Cefndir

Ers 2007, mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi cynnal arolwg blynyddol o fynychiadau a chyfranogiad ymysg plant a phobl ifanc. Caiff gwybodaeth am fynychiadau mewn digwyddiadau celfyddydol a chyfranogiad mewn gweithgareddau artistig ei chasglu trwy gyfres o gwestiynau a ofynnir yn Arolwg Omnibws Plant Beaufort Research pob blwyddyn. Mae copi o'r holiadur a ddefnyddir i gasglu'r wybodaeth wedi'i atodi i'r adroddiad hwn.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau arolwg 2019, gan edrych ar lefelau cyffredinol mynuchiadau a chyfranogiad yn y celfyddydau ymysg plant a phobl ifanc. Ymchwilir i amrywiadau demograffig a rhanbarthol, rhoddir cymhariaeth o'r ffurfiau celf, a rhoddir tueddiadau'r ffurfiau celf unigol mewn adroddiadau ategol sef 'Omnibws y Plant 2019: Mynuchiadau Plant a Phobl Ifanc yn y Celfyddydau unwaith y flwyddyn neu fwy fesul Ffurf Gelf' ac 'Omnibws y Plant 2019: Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc yn y Celfyddydau unwaith y flwyddyn neu fwy fesul ffurf gelf'.

Methodoleg

Cyfweliadau

Cynhelir Arolwg Omnibws Plant Beaufort Research dwywaith y flwyddyn, yn y gwanwyn ac yn yr hydref. Mae pob ton o'r arolwg yn cynnwys cyfweled ag oddeutu 500 o blant a phobl ifanc rhwng 7 a 18 oed. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n noddi modiwlau cwestiynau ar holiaduron mis Ebrill a rhai mis Hydref. Mae pob blwyddyn o ddata a drafodir yn yr adroddiad yn gyfuniad o setiau data mis Ebrill a mis Hydref, gan gynrychioli maint sampl blynyddol cyfunedig o oddeutu 1,000 o gyfweledigion. Er mwyn darparu sampl cynrychiadol o blant a phobl ifanc rhwng 7 a 18 oed ledled Cymru, pennir cwotâu ar y cyfweliadau a gynhelir yn ôl rhanbarth, oedran, rhywedd a'r gallu i siarad Cymraeg, sy'n adlewyrchu cyfrannau Cyfrifiad 2011. Caiff y data canlyniadol eu pwysoli hefyd i gywiro unrhyw fân anghydbwysedd yn y sampl, gan sicrhau ei fod yn cynrychioli poblogaeth Cymru rhwng 7 a 18 oed.

Cynhelir y cyfweliadau wyneb yn wyneb yng nghartrefi'r ymatebwyr, gan dîm o holwyr profiadol Beaufort yn defnyddio technoleg CAPI (Cyfweliadau personol gyda chymorth cyfrifiaduron). Cafodd yr holl waith maes ei gyflawni yn unol â Chod Ymarfer MRS, ac yn benodol, gan ddilyn y Canllawiau ar gyfer Cynnal Ymchwil gyda Phlant a Phobl Ifanc.

Cynhaliwyd 1,014 o gyfweliadau yn ystod dwy don o waith maes, ym mis Ebrill 2019 a misoedd Hydref-Tachwedd 2019.

Cyflwyno data

Cyflwynir y data mewn cyfres o siartiau llinell a bar, sy'n dangos canran y plant a phobl ifanc sydd wedi mynychu neu gymryd rhan ym mhob un o'r gweithgareddau y gofynnwyd amdanynt yn yr arolwg. Rhennir y canlyniadau yn ôl grŵp a rhanbarth demograffig allweddol. Lle cyflwynir amllder cyfranogiad a mynychuadau, mae'n cyfeirio at gyfradd o unwaith y flwyddyn neu amlach. Ceir diffiniadau o ranbarthau a graddau cymdeithasol yn Atodiadau 1 a 2 i'r adroddiad hwn.

Mynychiadau ar gyfer pob Ffurf gelf

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pa mor aml maent yn mynychu pob un o'r naw ffurf gelf ganlynol:

- Dramâu
- Sioeau cerdd
- Cerddoriaeth glasurol
- Opera
- Cerddoriaeth fyw arall
- Perfformiadau dawns
- Orielau neu arddangosfeydd celf neu grefft
- Darlleniadau, adrodd storïau a digwyddiadau llenyddol eraill
- Carnifalau a chelfyddydau'r stryd*

*Ychwanegwyd y ffurf gelf hon yn 2010

Mae Mynychiadau mewn Digwyddiadau Celfyddydol yn crynhoi'r mynychuadau cyffredinol mewn digwyddiadau celfyddydol, a fesurwyd trwy fynychiad mewn unrhyw ffurf gelf. Caiff amrywiadau demograffig a rhanbarthol yn y mynychuadau cyffredinol eu hastudio er mwyn helpu i ddeall pa blant a phobl ifanc sy'n fwy tebygol o fynychu'r celfyddydau yng Nghymru unwaith y flwyddyn neu fwy.

Wrth ystyried y ffigyrau mynychu cyffredinol, dylid nodi bod Carnifalau a Chelfyddydau'r Stryd wedi'u hychwanegu at y rhestr o ffurfiau celf yn 2010. Felly edrychir ar fynychiadau celfyddydol cyffredinol ar sail mynychuadau mewn unrhyw un o'r wyth ffurf gelf yn ystod y deng mlynedd ddiwethaf, ond hefyd ar sail y naw ffurf gelf yn ystod y chwe blynedd ddiwethaf. O edrych ar dueddiadau demograffig, caiff y cymariaethau eu seilio ar y naw ffurf gelf lawn dros y tair blynedd ddiwethaf.

Cyfranogiad ar gyfer pob Ffurf gelf

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pa mor aml yr oeddent yn cymryd rhan ym mhob un o'r gweithgareddau canlynol:


- Gweithgareddau cerddorol
- Drama neu weithgaredd theatr
- Gweithgaredd dawn
- Gwneud ffilm a fideo neu ffotograffiaeth
- Celfyddydau a chrefftau gweledol
- Celfyddydau digidol
- Ysgrifennu creadigol

Mae cyfranogiad mewn digwyddiadau celfyddydol yn crynhoi cyfranogiad cyffredinol unwaith y flwyddyn neu fwy, a fesurwyd gan, ymysg ffactorau eraill, grŵp demograffig, rhanbarth a'r gallu i siarad Cymraeg.

Dylid nodi, hyd at 2009, roedd yr arolwg yn gofyn am 'gelfyddydau cyfryngol' yn hytrach na 'chelfyddydau digidol', a gyflwynwyd yn 2010. Er ei fod yn edrych ar fath tebyg o weithgaredd yn fras, cafodd y celfyddydau cyfryngol eu diffinio fel dylunio gwefannau a gweithio gyda'ch cyfrifiadur personol, ond mae celfyddydau digidol yn cael eu diffinio'n gliriach fel a ganlyn: creu a gwneud darnau celfyddydol gan ddefnyddio technoleg ddigidol e.e. lanlwytho, creu neu ailgymysgu cynnwys cysylltiedig â'r celfyddydau (e.e. ar YouTube, Flickr).

Crynodeb Gweithredol


Mynychiadau



Yn 2019, mynychodd 86.6% o blant a phobl ifanc unrhyw un o'r 9 ffurf gelf o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae hyn yn 2.6 pwynt canran o ostyngiad o gymharu â 2018.

Ffigwr 1. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu fwy (9 ffurf aelf)


Fodd bynnag, heb gynnwys digwyddiadau carnifal a stryd, cododd mynychiadau 0.4 pwynt canran ymysg plant a phobl ifanc, gyda 80.9% yn mynychu unrhyw un o'r 8 math o ddigwyddiadau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu fwy.



Ffigwr 2. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu fwy (8 ffurf gelf gyson).

Trosolwg o Fynychiadau Celfyddydol fesul Ffurff Gelf yn ystod y tair blynedd ddiwethaf

- Ar ôl cynnydd yn 2018, mae mynychuadau mewn carnifalau a chelfyddydau'r stryd wedi gostwng 1.1 pwynt canran i 53.8% yn 2019. Fodd bynnag, hon o hyd yw'r ffurf gelf â'r nifer fwyaf o fynychiadau ymysg plant a phobl ifanc ers 2017.
- Mae nifer y mynychuadau mewn dramâu, y ffurf gelf a fynychwyd amlaf ond un, wedi cynyddu ychydig, gyda 48.2% o blant a phobl ifanc yn mynychu o leiaf unwaith y flwyddyn.
- Mae mynychuadau mewn orielau neu arddangosfeydd celf/crefft wedi gostwng 1 pwynt canran, gyda 41.4% o blant a phobl ifanc yn mynychu yn 2019.
- Cynyddodd nifer y mynychuadau mewn sioeau cerdd eto, gyda 29.4% o blant a phobl ifanc yn mynychu yn 2019.
- Ar ôl profi'r gostyngiad mwyaf yn nifer y mynychuadau yn 2018, cafwyd ton newydd o fynychiadau mewn digwyddiadau cerddoriaeth glasurol yn 2019: mynychodd 7% o blant a phobl ifanc unwaith y flwyddyn neu'n amlach, sy'n gynydd o 1.2 pwynt canran.
- Yn yr un modd, mae mynychuadau mewn operâu wedi cynyddu'n ôl i fyny i 2.1%. Hon yw'r ffurf gelf a fynychir leiaf gan blant a phobl ifanc o hyd.
- Mae'r holl ddigwyddiadau cerddoriaeth fyw eraill yn dal i ddangos gostyngiad cyson yn nifer y mynychuadau, gyda 35.8% o blant a phobl ifanc yn mynychu yn 2019 (3.1 pwynt canran o ostyngiad). Hwn yw'r gostyngiad mwyaf yn nifer y mynychuadau yn 2019.
- Mae'r cynnydd ym mynychuadau digwyddiadau llenyddol yn parhau yn 2019, gyda 29.4% o blant a phobl ifanc yn eu mynychu - 3.2 pwynt canran o gynydd, sef y cynnydd mwyaf ymysg yr holl ffurfiau celf yn 2019.




Ffigur 3. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu digwyddiadau celfyddol unwaith y flwyddyn neu fwy fesul ffurf gelf.

- Mae mynychuadau mewn digwyddiadau dawnys wedi gostwng yn ôl i lefelau 2017, gyda 19.9% o blant a phobl ifanc yn eu mynychu yn 2019.

Nid yw'r ffigurau hyn yn adio i 100% oherwydd mai'r sampl yw plant a phobl ifanc a allai fod wedi mynychu mwy nag un ffurf gelf mewn mwy nag un ffordd.

Sut a phryd y mynychir y gweithgareddau?



Mae canran y plant a phobl ifanc nad ydynt yn mynychu unrhyw ddigwyddiadau celfyddydol wedi cynyddu'n ôl i lefelau tebyg i rai 2017, gyda 13.4% heb fynychu digwyddiadau yn 2019.

Cafwyd cynnydd yn nifer y digwyddiadau a fynychwyd ac a drefnwyd gan ysgolion/ colegau yn ystod oriau ysgol, i 49.6% o ddigwyddiadau.


Mae nifer y digwyddiadau a fynychwyd ac a drefnwyd gan ysgolion/ colegau y tu allan i oriau ysgol yn aros yn sefydlog, sef 8.6% yn 2019.

Mae'r mwyafrif o ddigwyddiadau celfyddydol yn dal i gael eu mynychu yn amser y plant a'r bobl ifanc. Fodd bynnag, mae'r nifer wedi gostwng 5.3 pwynt canran yn 2019 i 72.3%.

Ffigur 4. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol (% yr holl blant a phobl ifanc).

Nid yw'r ffigurau hyn yn adio i 100% oherwydd bod y sampl yn cynnwys plant a phobl ifanc a allai fod wedi cymryd rhan mewn mwy nag un ffurf gelf mewn mwy nag un ffordd.


Cyfranogiad



Ffigur 5. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu fwy (7 ffurf gelf gyson).

Mae cyfranogiad mewn gweithgareddau celfyddydol yn dal i ostwng, gan gyrraedd lefelau tebyg i rai 2016: cymerodd 86.1% o blant a phobl ifanc ran mewn o leiaf un o'r 7 ffurf gelf unwaith y flwyddyn neu fwy yn 2019.

Trosolwg o Gyfranogiad Celfyddydol fesul ffurf gelf yn ystod y tair blynedd ddiwethaf



Ffigwr 6. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu fwy fesul ffurf gelf.

Cafwyd y gostyngiad mwyaf mewn cyfranogiad ym maes celf a chrefftau gwledol (5.6 pwynt canran) yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, gyda 59.1% o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan o leiaf unwaith yn 2019. Bellach, nid hon yw'r ffurf gelf y cyfranogir ynddi fwyaf.

Mae cyfranogiad mewn ysgrifennu creadigol wedi gostwng 2.3 pwynt canran i 60.8% eleni, fodd bynnag hon yw'r ffurf gelf y cyfranogir ynddi fwyaf bellach.


Mae cyfranogiad mewn gweithgareddau cerdd, celfyddydau digidol a dawns wedi aros yn weddol sefydlog ers 2018 (46%, 41.9% a 20.3% yn y drefn honno), ar ôl gostyngiad rhwng 2017 a 2018.

Mae cyfranogiad mewn drama a gweithgareddau theatr wedi aros yn sefydlog ers 2017, gyda 35% o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn 2019.

Cafwyd cynnydd o 1.5 pwynt canran o ran cyfranogiad mewn gweithgareddau ffilm, fideo a ffotograffiaeth, gyda 37.4% o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan o leiaf unwaith y flwyddyn yn 2019, gan bron â chyrraedd lefelau 2017 eto.

Nid yw'r ffigurau hyn yn adio i 100% oherwydd bod y sampl yn cynnwys plant a phobl ifanc a allai fod wedi cymryd rhan mewn mwy nag un ffurf gelf mewn mwy nag un ffordd.

Sut a phryd y cyfranogir mewn Gweithgareddau Celfyddydol?



Ffigur 7. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol yn ôl lleoliad.

Mae canran y plant a phobl ifanc nad ydynt yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau celfyddydol yn dal i godi'n araf, gyda 14.1% heb gymryd rhan mewn unrhyw ffurfiau celf yn 2019.


Yn groes i fynychiadau, mae'r rhan fwyaf o gyfranogiad mewn gweithgareddau artistig yn digwydd yn ystod oriau ysgol. Mae'r lefelau hyn wedi aros yn sefydlog ers 2018, gyda 72.1% o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn ystod oriau ysgol yn 2019.

Mae cyfranogiad mewn gweithgareddau a drefnwyd gan ysgolion y tu allan i oriau ysgol wedi gostwng 2.5 pwynt canran i 7.9%.

Mae cyfranogiad plant a phobl ifanc yn ystod eu hamser eu hunain yn dal i ostwng, gyda 49% yn cymryd rhan yn eu hamser eu hunain yn 2019.

Nid yw'r ffigyrau hyn yn adio i 100% oherwydd bod y sampl yn cynnwys plant a phobl ifanc a allai fod wedi cymryd rhan mewn mwy nag un ffurf gelf mewn mwy nag un ffordd.

Gradd Gymdeithasol: Mynychiadau



Mae plant a phobl ifanc o'r graddau cymdeithasol uwch yn dal i fynychu digwyddiadau celfyddydol yn amlach (90.2% i'r grŵp ABC1 a 83.4% i'r grŵp C2DE). Fodd bynnag, mae mynuchiadau'r ddau grŵp wedi gostwng, gan 2.7 pwynt canran i'r grŵp ABC1 a 3 phwynt canran i'r grŵp C2DE.

Mae'r gwahaniaeth o ran mynuchiadau rhwng aelwydydd ABC1 a C2DE yn aros yn sefydlog, sef 6.8 pwynt canran yn 2019.


Ffigwr 8. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu unrhyw ddigwyddiad celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl gradd gymdeithasol.

Gradd Gymdeithasol: Cyfranogiad

Mae plant a phobl ifanc o aelwydydd ABC1 yn dal i fod yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol na'r rhai o aelwydydd C2DE (87.5% o aelwydydd ABC1 a 84.7% o aelwydydd C2DE).


Mae cyfranogiad cyffredinol aelwydydd ABC1 wedi gostwng 2.6 pwynt canran. Fodd bynnag, mae cyfranogiad aelwydydd C2DE yn aros yn sefydlog, gyda chynnydd o 0.2 pwynt canran yn unig.

Mae'r gwahaniaeth rhwng y ddau grŵp gradd gymdeithasol wedi gostwng o 5.6 pwynt canran yn 2018 i 2.8 pwynt canran yn 2019.



Ffigwr 9. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl gradd gymdeithasol.

Rhywedd: Mynychiadau



Ffigwr 10. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu unrhyw ddigwyddiadau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl rhywedd.

Mae'r mynychiadau mewn digwyddiadau celfyddydol yn dal i fod yn uwch ymysg merched (89.7%) na bechgyn (83.4%) yn 2019. Fodd bynnag, mae wedi gostwng ar gyfer y ddwy garfan: 2.2 pwynt canran i fechgyn a 3 phwynt canran i ferched.


Mae'r gwahaniaeth mewn mynychiadau rhwng y ddau rywedd wedi gostwng hefyd, o 8.6 pwynt canran yn 2018 i 6.3 pwynt canran yn 2019.

Rhywedd: Cyfranogiad

Mae lefelau cyfranogiad yn dal i fod yn uwch ymysg merched (87.2%) na bechgyn (85.1%) hefyd.


Cafwyd gostyngiad mewn cyfranogiad ymysg merched i 87.2% (2.4 pwynt canran o ostyngiad). Cafwyd ychydig o gynnydd mewn cyfranogiad ymysg bechgyn fodd bynnag, i 85.1% (gan 0.6 pwynt canran).

Lleihaodd y gwahaniaeth rhwng cyfranogiad merched a bechgyn, o 5.1 pwynt canran yn 2018 i 2.1 pwynt canran yn 2019.



Ffigwr 11. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl rhywedd.

Oedran: Mynychiadau




Ffigwr 12. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol yn ôl grŵp oedran.

Mae'r mynychuadau ymysg plant 7-10 oed wedi gostwng 3 phwynt canran i 92.6%. Er hynny, hon yw'r lefel mynychuadau gryfaf ymysg yr holl grwpiau oedran.

Mae'n dal i fod yn uwch na'r mynychuadau ymysg y rhai 11-15 oed, o 6.2 pwynt canran.

Pobl ifanc 16-18 oed sydd â'r lefelau mynychuadau isaf o hyd, gyda 73.9% yn mynychu digwyddiadau celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn, 12.9 pwynt canran y tu ôl i'r lefelau mynychuadau cyfartalog. Gydag 11.4 pwynt canran o ostyngiad ers 2018, hwn yw'r gostyngiad mwyaf sydyn o ran mynychuadau ymysg yr holl grwpiau oedran.



Ffigur 13. Cymharu mynychuadau celfyddydol yn ôl oedran a grŵp ysgol (canran o blant a phobl ifanc sy'n mynychu unrhyw ffurf gelf unwaith y flwyddyn neu fwy).


Mae lefelau mynychuadau'n aros yn weddol sefydlog ymysg plant 7-10 oed a Blynyddoedd 2-6, gyda 92.6% o'r grŵp cyntaf a 95.4% o'r ail yn mynychu digwyddiadau celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae hyn yn wahaniaeth o 2.8 pwynt canran. Fodd bynnag, yn 2018, dim ond 0.4 pwynt canran oedd y gwahaniaeth rhwng plant 7-10 oed a'r rhai Blynyddoedd 2-6.

Mae lefelau mynychuadau hefyd yn weddol agos rhwng y rhai 11-15 oed (86.4%) a Blynyddoedd 7-11 (82.3%). Fodd bynnag, mae'r gwahaniaeth rhwng y rhai 11-15 oed a Blynyddoedd 7-11 wedi cynyddu hefyd: yn 2018, roedd yn 1.2 pwynt canran, ac yn 2019, roedd yn 4.1 pwynt canran.

Mae mynychuadau Blynyddoedd 12-13 yn aros yn sefydlog sef 95.4%, ond ceir gostyngiad o 3 phwynt canran ymysg pobl ifanc nad ydynt yn yr ysgol, sydd efallai'n esbonio'n rhannol y gostyngiad sydyn mewn mynychuadau ymysg pobl ifanc 16-18 oed.

Yn wahanol i fynychiadau grwpiau oedran, mae'r lefelau uchaf o fynychiadau ymysg grwpiau blwyddyn ysgol i'w gweld ym Mlynnyddoedd 12-13, a'r cyfraddau mynychuadau isaf ym Mlynnyddoedd 7-11.

Oedran: Cyfranogiad




Ffigwr 13. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl oedran.

Yn yr un modd â mynychuadau, ceir y lefelau cyfranogiad uchaf ymysg plant 7-10 oed, y mae 96% ohonynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn. Fodd bynnag, mae hwn yn 2 bwynt canran o ostyngiad ers 2018.

Yn groes i fynychiadau, mae cyfranogiad ymysg y rhai 11-15 oed wedi cynyddu 2.4 pwynt canran i 92.6%.

Mae'r gostyngiad mwyaf sydyn mewn cyfranogiad ymysg y rhai 16-18 oed, gyda 12.7 pwynt canran o ostyngiad i 57.3%. Hwn o hyd yw'r grŵp oedran sy'n lleiaf tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn, 28 pwynt canran yn is na'r lefelau cyfranogiad cyfartalog.




Ffigwr 14. Cymharu cyfranogiad celfyddydol yn ôl oedran a blwyddyn ysgol (canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd celfyddydol unwaith y flwyddyn neu

Mae lefelau cyfranogiad yn aros yr un peth bron rhwng plant 7-10 oed a Blynyddoedd 2-6, sef 96% a 96.5% yn y drefn honno, sy'n cymryd rhan mewn unrhyw ffurf gelf o leiaf unwaith y flwyddyn.

Mae lefelau cyfranogiad y rhai 11-15 oed a Blynyddoedd 7-11 sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol hefyd bron yn union yr un peth (92.6% a 91% yn y drefn honno).

Yn groes i fynychiadau, ymddengys bod y gostyngiad mewn cyfranogiad ymysg y rhai 16-18 oed yn gysylltiedig â'r gostyngiad sydyn sef 10.2 pwynt canran mewn mynychuadau ymysg Blynyddoedd 12-13, i lawr i 74.3%. Mae lefelau cyfranogiad ymysg pobl ifanc nad ydynt yn mynychu'r ysgol yn aros yn sefydlog, ac yn dal i fod yn is na chyfranogiad ymysg y rhai 16-18 oed sydd yn yr ysgol o hyd.

Mynychiadau yn ôl Rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru



Ffigwr 15. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu unrhyw ddigwyddiadau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl Rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru.

Gwelwyd y nifer fwyaf o fynychiadau yn y De-orllewin yn 2018, ond yn y Gogledd y ceir y nifer fwyaf yn 2019, gyda 92.2% o fynychiadau (2.2 pwynt canran o gynnydd yn y Gogledd). Hon oedd yr unig ranbarth a welodd gynnydd yn y mynychiadau yn 2019.


Mae mynychiadau yn y De-orllewin yn dal i ostwng, gyda 3.5 pwynt canran o ostyngiad i 88.8% o fynychiadau ymysg y boblogaeth ifanc.

Mae mynychiadau'n dal i ostwng yn rhanbarth Canolbarth y De, gan gyrraedd lefel mynychiadau sy'n is na'r cyfartaledd yn 2019 (84.3%). Dyma'r gostyngiad mwyaf mewn mynychiadau ymysg holl ranbarthau Cymru yn 2019.

Mae mynychiadau yn y De-ddwyrain yn dal i fod yn is na'r cyfartaledd, gan ostwng hyd yn oed yn fwy, gan 2.9 pwynt canran i 80.5%.

Mae mynychiadau ar gyfer 2019 wedi'u nodi ar y map isod.


Cyfranogi plant a phobl ifanc o weithgarwch celfyddydol yn 2019 (canran yn cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Tîm Ymchwil Cyngor Celfyddydau Cymru, Medi 2020
© hawffrïnt y Goron a'i chronfa ddata 2020. Trwydded Arolwg yr Ordrons

Ffigwr 16. Map o fynychiadau mewn digwyddiadau celfyddydol yn 2019 yn ôl Rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru.

Cyfranogiad yn ôl Rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru



Ffigwr 17. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl Rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru.


Mae lefelau cyfranogiad yn debyg yn rhanbarthau'r Gogledd, De-orllewin a Chanolbarth y De, sef 86.6%, 86.4% a 86.1% yn y drefn honno, o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn.

Mae hyn yn ostyngiad bach yn y tri rhanbarth fodd bynnag, gan 3 phwynt canran yn y Gogledd, 1.3 pwynt canran yn y De-orllewin a 0.9 pwynt canran yng Nghanolbarth y De.

Dim ond rhanbarth y De-ddwyrain sydd wedi gweld cynnydd mewn cyfranogiad yn parhau, gan gyrraedd lefelau cyfartalog bron, gyda 85.2% o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn unrhyw ffurf gelf o leiaf unwaith y flwyddyn yn y rhanbarth.

Mae lefelau cyfranogiad 2019 wedi'u nodi ar y map isod.

Cyfranogi plant a phobl ifanc o weithgarwch celfyddydol yn 2019 (canran yn cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Tîm Ymchwil Cyngor Celfyddydau Cymru, Medi 2020

© hawlfraint y Goron a'i chronfa ddata 2020. Trwydded Arolwg yr Ordians

Ffigur 18. Map o gyfranogiad mewn gweithgareddau celfyddydol yn 2019 yn ôl Rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru.

Mynychiadau yn ôl y gallu i siarad Cymraeg




Ffigwr 19. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu unrhyw ffurf gelf unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl y gallu i siarad Cymraeg.

Mae nifer mynychuadau plant a phobl ifanc yn dal i fod yn uwch ymysg y rhai sy'n siarad Cymraeg (92.7%) na'r rhai nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg (83%).

Fodd bynnag, cafwyd gostyngiad ym mynychuadau'r ddau grŵp: gan 1.3 pwynt canran i'r siaradwyr Cymraeg, a 3.2 pwynt canran i'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg.

Bu cynnydd hefyd yn y gwahaniaeth rhwng mynychuadau'r ddau grŵp, o 7.8 pwynt canran yn 2018 i 9.7 pwynt canran yn 2019.




Wrth ddadansoddi'r gallu i siarad Cymraeg yn ôl rhuglder, mae'r lefelau mynychuadau'n weddol debyg, gyda mynychuadau ychydig yn uwch ymysg siaradwyr rhugl, ac maent yn datblygu yn yr un modd trwy'r blynyddoedd. Mae lefelau mynychuadau wedi gostwng ychydig i siaradwyr rhugl (93.8%) a siaradwyr Cymraeg heb fod yn rhugl (92.3%) yn 2019, gan 1.1 pwynt canran a 1.7 pwynt canran yn y drefn honno.

Mae'r gwahaniaeth rhwng mynychuadau siaradwyr rhugl a'r rhai nad ydynt yn rhugl wedi cynyddu rhwng 2018 a 2019 fodd bynnag, o 0.9 pwynt canran i 1.5 pwynt canran.

Ffigwr 20. Canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu unrhyw ffurf gelf unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl eu rhuglder yn y Gymraeg.

Cyfranogiad yn ôl y gallu i siarad Cymraeg




Ffigwr 21. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn unrhyw ffurf gelf unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl y gallu i siarad Cymraeg.

Yn debyg i fynychiadau, mae'r cyfranogiad mwyaf ymysg plant a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg, gyda 91.1% yn cymryd rhan mewn unrhyw ffurf gelf o leiaf unwaith y flwyddyn.

Mae lefelau cyfranogiad ymysg y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg yn dal i fod yn is na'r cyfartaledd, ac yn dal i ostwng, gyda 83.1% yn cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu fwy.

Mae'r gwahaniaeth o ran mynuchiadau rhwng plant a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg a'r rhai nad ydynt yn ei siarad wedi cynyddu o 7.7 pwynt canran yn 2018 i 8 pwynt canran yn 2019.



Ffigwr 22. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl eu rhuglder yn y Gymraeg.

Gwelir gwahaniaeth o ran tuedd wrth wahaniaethu rhwng lefelau'r gallu i siarad Cymraeg.

Yn 2018, roedd lefelau cyfranogiad bron yr un peth rhwng siaradwyr rhugl a'r rhai heb fod yn rhugl, gyda lefelau ychydig yn uwch gan y siaradwyr rhugl. Mae'r duedd hon yn mynd y ffordd arall yn 2019: mae cyfranogiad ymysg siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl wedi cynyddu 2.4 pwynt canran i 94.1%, ond gwelwyd gostyngiad sydyn yng nghyfranogiad siaradwyr rhugl i 85.1% (6.8 pwynt canran o ostyngiad).

Felly mae'r gwahaniaeth mewn lefelau cyfranogiad rhwng siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai nad ydynt yn rhugl wedi neidio o 0.2 pwynt canran i 9 pwynt canran.

Mae hyn yn wahanol i'r lefelau mynychuadau, oedd yn uwch ymysg siaradwyr rhugl na'r rhai nad ydynt yn rhugl.

Atodiad 1: Diffiniadau Graddau Cymdeithasol

Gellir rhannu'r boblogaeth yn chwe grŵp economaidd-gymdeithasol neu raddau cymdeithasol, sydd wedi'u seilio ar alwedigaeth Prif Enillydd Incwm yr aelwyd. Mae gan bawb ar yr aelwyd yr un radd gymdeithasol â'r Prif Enillydd Incwm. I gynorthwyo â'r gwaith dadansoddi, mae'r tair gradd gyntaf a'r tair gradd olaf yn aml yn cael eu rhoi mewn grwpiau fel ABC1 a C2DE, a welir fel y 'Dosbarthiadau Canol' a'r 'Dosbarthiadau Gweithiol':

- A “Dosbarth canol uwch” – swyddi rheoli, gweinyddu a phroffesiynol uwch e.e. prif weithredwr, cyfarwyddwr cwmni, gwas sifil uwch, meddyg, barnwr, bargyfreithiwr, cyfrifydd gweithredol
- B “Dosbarth canol” - swyddi rheoli, gweinyddu a phroffesiynol uwch a chanolig e.e. athro ysgol uwchradd, llyfrgellydd, rhaglennwr cyfrifiaduron, swyddog prawf, gweithiwr cymdeithasol
- C1 “Dosbarth canol is” - swyddi goruchwyllo, clerigol, is-reoli e.e. gweithwyr swyddfa/clerigol, goruchwylwr ffatri, clerc banc, gwerthwr, myfyriwr

- C2 “Dosbarth gweithiol medrus” - gweithwyr llaw medrus e.e. Trydanwr, saer coed, ymladdwr tân, fforman
- D “Dosbarth gweithiol” - gweithwyr llaw lled-fedrus a heb sgiliau e.e. gweithiwr mewn siop, gweithiwr ffatri, casglwr sbwriel, negesydd, staff bar
- E Y rhai sy'n llwyr ddibynnol ar fudd-daliadau'r wladwriaeth gan gynnwys y rhai sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir a phensiynwyr heb bensiynau preifat. Gweithwyr achlysurol.

ABC1 –

swyddi proffesiynol,
cymwys a rhai lle na
wneir gwaith â llaw

C2DE –

gweithwyr llaw medrus,
lled fedrus a heb sgiliau,
a phobl nad ydynt yn
gweithio

Atodiad 2: Rhanbarthau

Diffiniadau Cyngor Celfyddydau Cymru o ranbarthau yw'r diffiniadau rhanbarthol y cyfeirir atynt drwy gydol yr adroddiad. Mae'r rhain i'w gweld isod:

Enw'r Rhanbarth	Diffiniad
Y Gogledd	Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Ynys Môn, Gwynedd
Y De-orllewin	Powys, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot
Canolbarth y De	Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful
Y De-ddwyrain	Torfaen, Sir Fynwy, Casnewydd, Caerffili, Blaenau Gwent

Atodiad 3: Holiadur Arolwg 2019

Cyngor Celfyddydau Cymru
Cwestiynau Terfynol – Omnibws y Plant 2019

DANGOS CERDYN

C1 Pa mor aml wyt ti'n mynd i bob un o'r gweithgareddau rydw i'n eu darllen ichi?

Yn gyntaf, pa mor aml wyt ti'n:

Mynd i ddramâu

.....Sawl gwaith yr wythnos

.....Unwaith yr wythnos

.....2 neu 3 gwaith y mis

.....Unwaith y mis

.....Unwaith pob 2 i 3 mis

.....2 neu 3 gwaith y flwyddyn

.....Unwaith y flwyddyn

.....Llai aml

.....Byth

AILADRODDWCH AR GYFER:

Mynd i sioeau cerdd

Mynd i'r opera

Mynd i gyngherddau cerddoriaeth glasurol

Mynd i gerddoriaeth fyw arall

Mynd i berfformiadau dawn

Mynd i orielau neu arddangosfeydd celf neu grefft

Mynd i ddarlleniadau, adrodd storïau neu ddigwyddiadau llenyddol eraill

Mynd i garnifalau a chelfyddydau'r stryd

--

DANGOSWCH Y CERDYN

C2 Y tro diwethaf est ti i weld drama, (dylech ofyn ynghylch pob gweithgaredd a fynychwyd o leiaf unwaith y flwyddyn yn C1) a oedd yr ymweliad:

wedi'i drefnu gan ysgol/coleg yn ystod oriau ysgol
wedi'i drefnu gan ysgol/coleg ond y tu allan i oriau ysgol
yn dy amser dy hun (heb ei drefnu gan ysgol/coleg)

AILADRODDWCH AR GYFER POB GWEITHGAREDD A FYNYCHWYD UNWAITH Y FLWYDDYN NEU'N AMLACH

--

DANGOSWCH Y CERDYN

C3 Pa mor aml wyt ti'n cymryd rhan yn y gweithgareddau rydw i'n eu darllen ichi?

Yn gyntaf, pa mor aml wyt ti'n

Cymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol (fel canu neu chwarae offeryn)

.....Sawl gwaith yr wythnos
.....Unwaith yr wythnos
.....2 neu 3 gwaith y mis
.....Unwaith y mis
.....Unwaith pob 2 i 3 mis
.....2 neu 3 gwaith y flwyddyn
.....Unwaith y flwyddyn
.....Llai aml
.....Byth

AILADRODDWCH AR GYFER:

Cymryd rhan mewn gweithgaredd drama neu theatr (e.e. actio, cyfarwyddo, gwaith technegol)

Cymryd rhan mewn gweithgaredd dawn (nid disgo/mynd i glwb)

Cymryd rhan mewn gwneud ffilm neu fideo, neu ffotograffiaeth

Cymryd rhan mewn celfyddydau gweledol neu grefftau (e.e. paentio, tecstilau)

Cymryd rhan yn y celfyddydau digidol (creu a gwneud celfyddydau gan ddefnyddio technoleg ddigidol e.e. lanlwytho, creu neu ail-gymysgu cynnwys sy'n gysylltiedig â'r celfyddydau, er enghraifft ar YouTube, Flickr, ac ati)

Cymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol (e.e. barddoniaeth neu storïau)

--

DANGOSWCH Y CERDYN

C4 Y tro diwethaf y cymeraist ti ran mewn gweithgaredd cerddorol (dylech ofyn ar gyfer pob gweithgaredd y cymerwyd rhan ynddo o leiaf unwaith y flwyddyn yn C3) **a oedd:**

yn yr ysgol/coleg yn ystod oriau ysgol

yn yr ysgol/coleg ond y tu allan i oriau ysgol

yn dy amser dy hun (heb fod yn ystod oriau ysgol/coleg)

AILADRODDWCH AR GYFER POB GWEITHGAREDD Y CYMERWYD RHAN YNDDO UNWAITH Y FLWYDDYN NEU'N AMLACH